# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf, 2010

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R Llewelyn Jones (Is-Gadeirydd)(Yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Keith Evans, Eric Jones, J Arwel Roberts, Gareth W Roberts, OBE, J P Williams Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Thomas Jones, (Deilydd Portffolio Cyllid), Mr James Quance (Uwch Reolwr Archwilio - PWC) |

•

• Dywedodd yr Is-Gadeirydd wrth y Pwyllgor Archwilio bod Cadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd Aled Morris Jones, yn absennol o'r cyfarfod oherwydd ymrwymiad personol blaenorol.

•

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd J Arwel Roberts ddiddordeb yng nghyswllt eitem 5 ar y rhaglen, Cymunedau'n Gyntaf gan ei fod yn Gadeirydd Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf Morlo a chyflogaeth ei ferch fel Cydlynydd Cymunedau'n Gyntaf. Datganodd y Cynghorydd G W Roberts, OBE ddiddordeb hefyd yn eitem 5 oherwydd ei gyswllt gyda'r Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf yn Amlwch. Nid oedd yr un o'r ddau yn bresennol pan drafodwyd y mater hwn.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol ac arwyddwyd hwy fel rhai cywir:

- 20 Mai, 2010

- 1 Mehefin, 2010

Er mwyn egluro ei absenoldeb o'r cyfarfod o'r Pwyllgor ar y dyddiad uchod lle nad oedd wedi cyflwyno ymddiheuriad, eglurodd y Cynghorydd J P Williams nad oedd wedi derbyn rhybudd na'r agenda ar gyfer y cyfarfod tan y diwrnod ar ôl y cyfarfod, oherwydd i'r llythyrau gael eu hoedi yn y post.

- 13 Mehefin, 2010

**3 DATGANIAD CYFRIFON 2009/10**

Cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon drafft 2009/10 i'r Pwyllgor ei ystyried a'i adolygu.

Nododd y Cynghorydd Lewis Davies nad oedd wedi derbyn y fersiwn Gymraeg o'r Datganiad Cyfrifon. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid mai'r rheswm am hyn oedd fod y ddogfen yn parhau i fod mewn drafft, a'i bod yn anghyflawn ac un o'r pethau sydd heb eu cwblhau hyd yn hyn yw'r fersiwn Gymraeg.

**3.1** Wrth gyflwyno'r Datganiad Cyfrifon, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid - yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol pan oedd angen i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cyfrifon drafft er mwyn iddynt

wedyn gael eu hail gyflwyno ar ddiwedd y broses archwilio, roedd y trefniadau ar gyfer cyflwyno cyfrifon y flwyddyn hon yn wahanol yn dilyn newid yn y rheoliadau. Roedd hyn yn golygu bod y pwysau i gyflwyno dogfen er cymeradwyaeth y Pwyllgor erbyn rhyw ddyddiad penodol h.y. 30 Mehefin wedi'i ddileu ac roedd hynny yn galluogi i'r Pwyllgor adolygu'r Datganiad drafft fel y mae'n sefyll mewn mwy o fanylder ac i geisio cael eglurhad ar unrhyw agwedd arbennig nad oedd yn glir. Roedd yr Archwilydd Allanol eisoes wedi dechrau ei archwiliad o'r Cyfrifon, ac roeddynt hefyd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Yn dilyn cwblhau'r broses hon, fe ofynnir i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon 2009/10 yn ffurfiol. Gyda'r Datganiad Cyfrifon, fe fydd yna hefyd Ddatganiad Llywodraethu y mae'r Pwyllgor Archwilio wedi'i benderfynu y bydd yn ei fabwysiadu y flwyddyn hon yn lle Datganiad o Reolaeth Fewnol. Y bwriad yn wreiddiol oedd i'r Datganiad Llywodraethu drafft gael ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor i'w drafod ymhellach; fodd bynnag, mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn disgwyl am wybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru ynglyn â'r asesiad o dan y Mesur Llywodraeth Leol fydd yn cael dylanwad ar yr hyn fydd yn cael ei ddweud yn y Datganiad Llywodraethu. Bydd y ddogfen olaf hon felly yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod nesaf ynghyd â'r cyfrifon terfynol yn dilyn gwneud gwaith pellach arnynt os bydd angen.

O safbwynt y cyd-destun ehangach gyda pharatoi'r Datganiad Cyfrifon roedd y flwyddyn ariannol dan sylw yn un ddiddorol ac yn un arwyddocaol. Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2009/10 pan fabwysiadwyd y gyllideb, roedd yr hinsawdd ariannol yn un o ansicrwydd ac roedd yna nifer o bryderon ynglyn â'r effaith gâi'r dirwasgiad a'r rhagolygon mewn perthynas â chyfraddau llog a chwyddiant. Roedd yr ansicrwydd cymaint fel ag y bu raid cael newid yn y ffordd o drin yr eitemau hyn yn y gyllideb i gydnabod y lefel uchel o risg. Yr oedd wedyn yn gyfnod anodd i'r awdurdod ac roedd y gyllideb a fabwysiadwyd ar gyfer 2009/10 yn un oedd yn gofalu am lefel uchel o risg ac un oedd yn rhagweld gwneud defnydd sylweddol o falansau. Fel y digwyddodd pethau, ni wireddwyd y risgiau gwaethaf oedd wedi'u rhagweld ac wrth i reolwyr dderbyn difrifioldeb y sefyllfa, y darlun sy'n dod yn gliriach dros gwrs y flwyddyn yw un o danwario ar draws nifer o wasanaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor ei hun hefyd ar ddiwedd y flwyddyn mewn sefyllfa fwy cyson ac felly, tra y bu i'r Awdurdod ddechrau'r flwyddyn mewn sefyllfa lle roedd yn meddwl y byddai'n rhaid iddo ddefnyddio ei falansau i gefnogi'r gyllideb, y mae wedi diweddu'r flwyddyn mewn sefyllfa o danwario ac o allu adeiladu ar yr arian sydd ganddo wrth gefn. Dyna'r yw'r prif neges ariannol o Ddatganiad 2009/10 ac y mae yn un y dylai'r Awdurdod fod yn falch ohono.

**3.2** O safbwynt yr adolygiad o'r flwyddyn, roedd y pwyntiau allweddol canlynol yn sefyll allan -

- Roedd cyllideb refeniw 2009/10 y Cyngor yn adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd a mentrau cynhyrchu incwm yn effeithio'r holl wasanaethau, a rhai datblygiadau mewn gwasanaethau. Cyllidwyd y gyllideb drwy grantiau gan y Cynulliad a 3% o gynnydd yn Band D y Dreth Gyngor.
- Roedd perfformiad y gyllideb refeniw yn galonogol: yn gyffredinol roedd y cyllidebau corfforaethol wedi tanwario ac roedd yna beth incwm annisgwyl mawr; fe wariodd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn dda o fewn eu cyllidebau. Roedd y cyllidebau gwastraff yn parhau i fod wedi'u tanwario, o rhyw £1m y flwyddyn hon, a hynny'n adlewyrchu gostyngiad sylweddol mewn tunnelli a gyfeirir i dirlenwi a chostau is mewn rhannau o'r gwasanaeth.
- Fe wnaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol gynnydd da gyda'u rheolaeth ariannol o'u gwasanaethau gan wario £0.5m yn llai na'r gyllideb flynyddol gyda hynny'n ad-dalu'r diffyg oedd gan y gwasanaeth o'r flwyddyn flaenorol.
- Wrth i'r wasgfa economaidd barhau i gael effaith ar yr economi leol yn ystod y flwyddyn, roedd y canlyniadau'n dangos diffyg ar rai o'r cyllidebau incwm. Ni fu angen defnyddio rhan fawr o'r arian wrth gefn ar gyfer chwyddiant o £0.9m oedd yn y gyllideb ac fe'i dychwelwyd i'r balansau.
- Fodd bynnag, roedd y gyllideb Addysg wedi gorwario £0.6m yn bennaf yn ymwneud â chostau integreiddio disgyblion gydag anghenion addysg arbennig mewn ysgolion prif lif.
- Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth gwariant net yr ysgolion ostwng eu harian wrth gefn i ryw raddau (mewn cyfanswm) rhyw £3.246m i £3.145m. Mae cyfanswm arian wrth gefn yr ysgolion yn parhau i fod yn uchel o'i gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru.
- Ni chwblhawyd yr un prosiect cyfalaf mawr yn y flwyddyn er bod Cynllun Adfywio Ffisegol Llangefni yn awr wedi'i gwblhau i raddau helaeth ar wahân i'r gwaith i Neuadd y Dref. Cynyddodd y gwariant ar dai cyngor rhyw 50% ar flynyddoedd blaenorol, ar gwblhau ail flwyddyn y rhaglen WHQS. Roedd hyn yn golygu defnyddio £3.6m mewn benthyciadau heb eu cefnogi i gefnogi adnoddau seiliol HRA. Fe ddechreuodd dau brosiect Cronfa Cydgyfeiriant Mawr yn ystod y flwyddyn: prosiect y Tair Tref a phrosiectau'r Amgylchedd Arfordirol.

- Ariannwyd y Gyllideb Gyfalaf gyda chymysgedd o grantiau gan gyllidwyr allanol, benthyciadau, adnoddau refeniw a derbyniadau cyfalaf. Mae'r angen Ariannu Cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn yn llai na'r hyn oedd wedi'i ddisgwyl pan osodwyd y gyllideb am y flwyddyn. Gan adlewyrchu benthyca ar gyfer WHQS a dal i fyny ar y defnydd o fenthyca a gefnogir, mae dyled allanol wedi cynyddu £7.5m gan ddiweddu'r flwyddyn ar £97.6m. Ni wnaed unrhyw ymarferion i aildrefnu'r ddyled yn ystod y flwyddyn.
- Mae gwerth net yr Awdurdod fel a welir ar y fantolen wedi gostwng rhyw £77.6m, yn bennaf oherwydd y cynnydd yn ymrwymiadau Pensiynau net y Cyngor, ond mae hyn yn cael ei gydbwyso gan gynnydd yng ngwerth y tai cyngor. Mae'r fantolen yn dangos ymrwymiadau net a amcangyfrifiwyd o £135.9m o safbwynt pensiynau, cynnydd o'r £69m ar 31 Mawrth, 2009.
- Yr asesiad gorau o gadernid cyllidol yw i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gwneud darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau gwybyddus a faint o arian wrth gefn dosbarthu sydd ar gael ar gyfer risgiau eraill. Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau gwybyddus ac wedi sefydlu arian wrth gefn lle mae'n ofynnol drwy'r gyfraith, lle mae wedi'i glustnodi drwy gynlluniau'r Cyngor, neu lle mae'n bwyllog a doeth ar gyfer risg neu ansicrwydd. Er mai'r bwriad oedd defnyddio £1m o'r balansau cyffredinol a £0.4m o'r arian wrth gefn clustnodedig i gefnogi cyllideb 2009/10, ni fu angen y cyfraniad o'r balansau cyffredinol ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd y balansau cyffredinol yn £6.1m. Mae cyfanswm o £2.3m wedi'i gadw wrth gefn ar gyfer costau'n codi o'r Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi, er nad yw hyn yn amcangyfrif o unrhyw ymrwymiad gwirioneddol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd arian wrth gefn yr ysgolion yn £3.1m, y Cyfrif Refeniw Tai yn £1.9m a'r arian wrth gefn clustnodedig yn £12.4m. Mae cyfanswm yr arian wrth gefn clustnodedig wedi cynyddu yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn arian wrth gefn Safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn ac wrth gefn Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi. Roedd y rhain yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan ostyngiadau yn arian wrth gefn y Gwasanaethau, a chrafangu'n ôl Arian wrth Gefn Clustnodedig i gefnogi'r gyllideb.
- Mae'r economi a'r rhagolygon i arian cyhoeddus wedi gwaethygu llawer yng nghwrs 2009/10. Mae rheolaeth ddoeth o'r arian a gwneud ymdrech fwriadol i gynilo arbedion wedi cryfhau'r adnoddau ariannol. Mae'n debyg y bydd angen y rhain i helpu i reoli'r sefyllfa wrth i bethau waethygu.

**3.3** Wrth drafod cynnwys mwy manwl y Datganiad, eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod y cyfarwyddyd ar gau'r cyfrifon yn gallu newid yn sylweddol mewn rhai blynyddoedd ac yn llai mewn blynyddoedd eraill. Mae'r newidiadau yn 2009/10 yn weddol brin a hynny'n rhoi ychydig o ysbaid a chaniatáu i'r Awdurdod weithredu ar rai o'r pwyntiau a godwyd gan yr Archwilwyr yn y blynyddoedd diwethaf hyn. Mae'r prif wahaniaethau rhwng cyfrifon 2009/10 a rhai 2008/09 o safbwynt y cyfarwyddyd ynglyn â sut y byddir yn eu cau yn ymwneud yn bennaf ar meysydd canlynol -

- Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth a Ohiriwyd

Mae £25m o grantiau a ohiriwyd wedi'u haddasu fel yr addaswyd rhai'r flwyddyn cynt. Mae SORP 2008 yn dweud bod yn rhaid i falans cronedig grantiau'r llywodraeth nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw ased unigol cyn 31 Mawrth, 2007 gael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. O 31 Mawrth, 2010, balans Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth oedd wedi'u gohirio oedd £77.546m a £25m o'r balans hwn sydd wedi'i addasu yn unol â'r SORP, ac yn amodol ar gynnal trafodaethau pellach gyda'r Archwilydd Allanol. Nid yw'n cael unrhyw effaith ar yr arian wrth gefn sydd ar gael i'r Cyngor.

- Trethi Annomestig

Mae'r newid arall yn ymwneud â sut yr ymdrinnir â gweithgareddau trethi annomestig. Yn y gorffennol deliwyd â'r rhain fel dyledwyr i'r Cyngor ond yn 2009/10 maent i'w trin fel dyledwyr Llywodraeth y Cynulliad. Mae hyn oll wedi golygu newid y ffordd y mae materion fel dyledwyr yn cael eu cyflwyno ac er nad yw'r newid yn effeithio'r adnoddau sydd ar gael i'w wario, y mae'n cael effaith sylweddol ar y ffyrdd y mae dyledwyr yn cael eu nodi yn y cyfrifon.

- Gweithgareddau

Bu digwyddiadau yn ystod y flwyddyn sydd wedi cael effaith ar rai ffigyrau a welir yn y cyfrifon yn yr ystyr eu bod yn cael effaith ar y cynnydd neu'r gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn y cyfrifon arbennig hynny. Y rhain yw -

- Pensiynau a'u cyfrifo

Mae'r Fantolen a'r nodiadau sydd gyda hi yn dangos bod y diffyg yng nghyfran Ynys Môn o'r gronfa bensiwn wedi cynyddu o £69m i £135m er i'r marchnadoedd stoc berfformio'n well yn 2009/10 gan arwain at adennill peth o'r gwerth yr oeddent wedi'i golli yn y flwyddyn flaenorol. Fe gafwyd y newid hwn o ganlyniad i newid mewn tybiaethau yn bennaf ynglyn â graddfeydd marwolaethau, a hefyd newid yn y ffordd y mae'r gronfa bensiwn yn cael ei mesur o'i chymharu â bondiau. Mae'r symudiadau hyn wedyn yn cael eu crynhoi yn y cyfrifon er mwyn egluro paham na fu unrhyw newid sylweddol yn y ffigyrau. Rhaid nodi nad yw'r ffigyrau yn cynrychioli'r disgwyliadau o safbwynt beth fydd yn digwydd o safbwynt y gronfa bensiwn dros gyfnod hir o amser ond eu bod yn hytrach yn adlewyrchu nifer o dybiaethau ac o ragamcanion ar un cyfnod o amser.

- Newidiadau Polisi

Fe adolygwyd yr holl bolisiau perthnasol ac ar wahân i newid yn y ffordd yr ymdrinnir â dyledwyr a'r ffordd y gwneir y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn unol ag argymhellion yr Archwilydd Allanol, dim ond ychydig iawn o newidiadau a gafwyd. Mae'r newidiadau yn y ffordd yr ymdrinnir â dyledwyr a'r ddarpariaeth a wnaed iddynt wedi arwain at gynnydd yn y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dyledion drwg ond nid yw hynny'n golygu o anghenraid mai'r disgwyl yw y bydd y sefyllfa yn amlygu ei hun fel y caiff ei chyflwyno yn y cyfrifon.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, fe godwyd nifer o bwyntiau, rhai yn ymwneud â mân fanylion yn y cyfrifon, fel y cyfraniad tuag at gost cymorth elusennol / graddfa wledig a'r llog a delir ar or-daliadau mewn perthynas ag NNDR ac fe eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ynglyn â pherfformiad y gwasanaeth fel y gorwario yn y gyllideb Addysg a sut y byddid yn delio â hyn yn y misoedd i ddod. Fe gafwyd trafodaeth ynglyn â stad balansau ysgolion sir sydd yn parhau i fod ymysg yr uchaf yng Nghymru ac a yw hyn i'w berthnasu i rai ysgolion yn manteisio o'r fformiwla trwy fod â nifer uwch o ddisgyblion ynteu a yw'n fater syml o well rheolaeth gan rai ysgolion na gan rai eraill. Roedd rhai o'r aelodau o'r farn bod lefel uchel y balansau ysgolion yn rhywbeth hollol annerbyniol a'i fod yn ddrwg yn wleidyddol i'r Awdurdod cyfan, ond roedd eraill yn dadlau ei fod yn cynrychioli rheolaeth dda o adnoddau ar ran yr ysgolion hynny gyda balansau mewn llaw sydd yn awr o fudd iddynt o weld y gwasgu presennol ar wariant cyhoeddus. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid - er na all yr Awdurdod ar hyn o bryd ofyn i ysgolion wneud defnydd o'u balansau, efallai y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn newid y system i ganiatau i awdurdodau lleol ddweud sut y caiff yr arian ei wario, neu os bydd hynny'n methu, adennill yr arian. Un pryder cyfartal, os nad mwy, yw'r ysgolion lle ceir diffyg o ran eu cyllideb, ac roedd yna bedair ysgol o'r fath. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod Swyddogion Cyllid yn gweithio gyda Swyddogion o'r Adran Addysg a'r ysgolion lle ceir y diffyg i lunio cynllun adfer fydd yn helpu i'r ysgolion hynny fynd i'r afael â'u diffygion. Un cwestiwn arall yn ymwneud ag ysgolion ac a godwyd gan y Cynghorydd Lewis Davies oedd un yn ymwneud ag Ysgol Sylfaen Caergeiliog. Roedd y Cynghorydd Davies yn bryderus y byddai unrhyw gynnydd mewn gwerth ddoi o ganlyniad i welliannau'n cael eu gwneud yn yr ysgol e.e. creu dosbarth ychwanegol er lles Corff Llywodraethol yr ysgol ac nid y Cyngor hwn. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) yn ei hateb ei bod yn credu y byddai unrhyw gais i Lywodraeth y Cynulliad am ased ychwanegol yn cael ei wneud trwy'r Awdurdod a phe bai hynny'n llwyddiannus, a bod y rhan hwnnw o'r eiddo yn dod yn rhan o'r stad mewn ffurf arall, byddai'r eiddo'n parhau i fod yn rhan o asedau'r Bwrdd Llywodraethu. Pe bai'r Bwrdd yn dymuno gwerthu'r adeilad ysgol byddai hynny'n golygu proses rannu gymhleth er mwyn sefydlu pa asedau fyddai'n perthyn i'r Awdurdod a pha rai fyddai'n perthyn i'r Corff Llywodraethu. Gofynnodd y Cynghorydd Lewis Davies am i gopi o unrhyw reoliadau ysgrifenedig yn ymwneud â'r mater hwn gael eu hanfon iddo ef a dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) y byddai'n gweld pa ddogfennau sydd ar gael.

Fodd bynnag, prif destun y drafodaeth oedd sut y caiff y Datganiad Cyfrifon ei gyflwyno; sut y mae'r wybodaeth honno'n cael ei dehongli a beth tybed y mae'r cyhoedd ac yn arbennig rai nad ydynt yn arbenigwyr cyllid yn ei ddeall o'r ffigyrau fel y maent yn ymddangos yn y cyfrifon. Cyfeiriodd y Cynghorydd J P Williams at y cynnydd yn y diffyg o siar Ynys Môn o'r gronfa bensiwn oedd yn cynrychioli'r dirywiad mwyaf sylweddol yn sefyllfa'r Cyngor. Nododd bod tybiaethau ynglyn â phobl yn byw yn hir wedi cyfrannu at y diffyg ond roedd y gostyngiad yn y graddfeydd llog hefyd wedi cyfrannu at y diffyg gan olygu bod gwerth presennol net yr hyn sy'n cael ei dalu allan yn llawer mwy nag y gallai fod. Gwnaeth y sylw y byddai'n hoffi cael gwybod beth yw'r graddfeydd llog presennol o'i

gymharu â rhai y llynedd ac mewn blynyddoedd blaenorol fel y gellir cymharu'r newid yn niffyg y pensiwn o flwyddyn i flwyddyn.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid mai'r dull sy'n cael ei ddefnyddio gan yr Actiwari yw'r un a welir yn y cyfarwyddyd a dim ond ychydig iawn o ddisgresiwn sydd ganddo ef ynglyn â'r raddfa a ddefnyddir (roedd y raddfa wirioneddol yn cael ei nodi o dan Nodyn 17 y cyfrifon fel un yn seiliedig ar raddfa ymddangosol y dychweliad ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel yn cael eu mesur gan y cynnyrch ar AA Indecs Corfforaethol Sterling iboxx dros 15 mlynedd). Roedd y raddfa llog wedi'i heffeithio gan broses gafodd ddylanwad ar y farchnad stoc gyda hynny wedyn yn cael dylanwad ar raddfa'r llog a ddefnyddir i'r pwrpas hwn. Fe ellir dweud bod hyn yn adlewyrchu pa mor artiffisial yw'r holl broses oherwydd mae'n cael ei gydnabod bod yna ddiffyg ar y gronfa bensiwn ond bydd y ffordd o asesu'r diffyg hwnnw yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn a hynny'n golygu bod y ffigwr terfynol bob amser yn un digon ansad.

Nododd y Cynghorydd J P Williams y byddai'n ddiddorol cael gwybod beth fyddai ffigwr diffyg y pensiwn pe bai'r raddfa llog yn nes at, dyweder, 7%, sef y raddfa gyfartaleddog yn y tymor hir. Dywedodd bod y cyfraddau llog ar hyn o bryd yn isel iawn a'i fod yn poeni bod yr Awdurdod yn bod yn galed arno'i hun a hynny'n annheg yn yr ystyr bod y diffyg pensiwn yn seiliedig ar ffigwr damcaniaethol a gafwyd mewn amser o ansicrwydd ariannol. Roedd am ddadlau y gallai dangos diffyg pensiwn yn seiliedig ar gyfradd llog o 7% arwain at welliant sylweddol yn y ffigwr oedd yn cael ei gyflwyno. Roedd y Cynghorydd G W Roberts yn bryderus gyda lefel cyfraniad y cyflogwr i'r cynllun sef 21% gyda hynny yn cynrychioli pwysau ychwanegol ar y trethdalwyr a hyn, iddo ef, oedd y prif fater. Os oedd y ffigyrau hyn yn seiliedig ar gyfradd ddamcaniaethol yna mae achos i'w wneud dros gynnwys yn y cyfrifon nodyn yn egluro pethau ac yn gosod yr asedau a'r ymrwymiadau sydd ar y gronfa bensiwn ond fyddai hefyd yn pwysleisio bod yr ymrwymiadau pensiwn yn seiliedig ar gyfradd llog penodol ar bwynt mewn amser a phe câi ei osod yn unol â'r raddfa gyfartaleddog tymor hir o 7% fe ellid gweld gostyngiad sylweddol yn ffigwr y diffyg yn y gronfa bensiwn. Roedd yr Aelodau'n teimlo bod hyn yn hynod o bwysig o ystyried y ffocws negyddol oedd yn parhau ynglyn â phensiynau'r sector cyhoeddus yn y wasg ac o du'r Llywodraeth.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) trwy ddweud y bydd ymarfer prisio actwarial yn digwydd bob tair blynedd gyda'r cyfraddau'n newid wedi hynny. Y disgwyl yw y bydd y actiwari ar ôl ymarfer prisio 2010, yn ystyried y sefyllfa economaidd a hefyd y rhagamcanion i'r dyfodol ac efallai wedyn na fydd y newidiadau mor sylweddol. O safbwynt cynnwys nodyn ychwanegol i egluro pethau yn y cyfrifon, mae fformat y nodiadau'n cael eu llunio'n allanol ac fe fyddai'n anodd i'r gwasanaeth cyllid fedru newid y fformat i bwrpas rhoi mwy o wybodaeth. Ond, beth allai fod yn ddefnyddiol yw cynnwys peth gwybodaeth o adroddiad blynyddol Cyngor Gwynedd ar y Gronfa Bensiwn gyda chroes gyfeiriad o hwnnw i'r wybodaeth yn y cyfrifon. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) y byddai'n rhoi ystyriaeth i eiriad nodyn o'r fath ac yn ei drafod gyda'r Archwilydd Allanol i weld beth allai fod yn bosibl i'w gynnwys fel gwybodaeth ychwanegol heb hefyd fynd yn groes i'r cyfarwyddyd. Roedd hyn yn dderbyniol i'r Pwyllgor. Nododd y Cynghorydd J P Williams y byddai'n falch pe câi'r neges uchod ei ddwyn i sylw'r Archwilydd Allanol fel y gallent hwythau yn eu tro ddweud wrth y rhai oedd yn gyfrifol am ffurfio'r rheoliadau ynglyn â sut y cyflwynir y cyfrifon y gall y ffordd y mae ffigwr diffyg y gronfa bensiwn yn cael ei asesu fod yn gamarweiniol iawn ac y gall arwain at feirniadu'r gweithwyr sector cyhoeddus yn ddisail a hefyd achosi ofnau diangenrhaid ynglyn â chost ychwanegol i'r trethdalwr. Bydd newid yn y gyfradd i 1.7% yn y flwyddyn nesaf yn golygu y bydd y diffyg yn cael ei ddangos yn y cyfrifon fel ffigwr all fod mor uchel â £278m heb i unrhyw arian ychwanegol gael ei dalu i mewn i'r gronfa a heb fod unrhyw unigolion mewn gwirionedd yn byw am fwy o amser. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) y byddai'r adran berthnasol yn adroddiad Cyngor Gwynedd ar y gronfa bensiwn yn cael ei hanfon ymlaen i aelodau'r Pwyllgor.

Gan barhau ar destun y cronfeydd pensiwn, gofynnwyd sut yr oedd Cronfa Bensiwn yr Athrawon yn wahanol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gyda Chronfa Bensiwn Llywodraeth Leol, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid bod cyfraniadau'n cael eu gwneud i gynllun sydd wedyn yn cael eu buddsoddi mewn ffordd fel y gellir rhoddi gwerth ar y buddsoddiadau hynny a sefydlu a oes yna unrhyw ddiffyg ac yn achos y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol roedd hynny wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd yn y wasg. O safbwynt Cynllun Pensiwn yr Athrawon a chynlluniau eraill o'r fath sy'n cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Leol, cynllun talu wrth fynd ymlaen yw hwn lle nad oes unrhyw gronfa nac asedau cynhaliol. Mae'r diffygion ar y cynlluniau hyn yn debygol o fod yn llawer mwy nag ar y Cynllun Llywodraeth Leol ond oherwydd nad oes cronfeydd, does dim ffordd o

nodi'r ymrwymiadau. Felly tra bo sylw mawr yn cael ei roi i Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol oherwydd ei bod yn bosibl mesur ei werth, ychydig iawn o sylw sy'n cael ei roddi i gynlluniau cenedlaethol fel Cynllun Pensiwn yr Athrawon lle mae'r diffyg yn debygol o fod llawer mwy difrifol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J P Williams at wahaniaethau sylweddol yn y gwariant net rhwng 2008/09 a 2009/10 mewn rhai meysydd arbennig ac fe enwodd y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu a Thai fel esiamplau. Gofynnodd beth oedd i'w gyfrif am y gwahaniaethau hyn. Wrth ateb, eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod gwaith i sicrhau bod cyfrifon llywodraeth leol yn gyson gyda chyfrifon mewn sectorau eraill, a bod yn rhaid gorfod gwneud cryn dipyn o newidiadau i ffigyrau incwm a gwariant yn y flwyddyn, gyda ffigyrau refeniw yn cael eu newid yn unol â chynnydd neu ostyngiad yng ngwerth asedau mewn amgylchiadau lle ceir dibrisiant neu grantiau'n cael eu diddymu. Nid yw'r gwahaniaethau, felly, yn ddim byd i wneud gyda gwariant refeniw yn erbyn fformat arferol yr Awdurdod ar gyfer cyllidebau y gellir eu rheoli ond yn hytrach gyda newidiadau technegol. Nododd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod rhai awdurdodau'n cyflwyno cymhariaeth o'r canlyniadau a'r gyllideb fel atodiad i'r cyfrifon oherwydd bod y cwestiwn hwn yn codi ac efallai y dylai hyn fod yn fater i'w ystyried i'r dyfodol.

Nododd y Cynghorydd J P Williams na fyddai unrhyw newidiadau mewn gwerth ased yn cael ei weld fel rhan o'r incwm a'r gwariant yn y sector preifat gan nodi hwn fel esiampl arall o sut y mae'r ffigyrau'n cael eu cyflwyno yn y cyfrifon ac y gallant fod yn gamarweiniol. Nododd y bydd y sector cyhoeddus yn aml iawn yn feirniadol o'r sector preifat a hynny'n seiliedig ar y ddealltwriaeth o sut y mae pethau'n gweithio yn y sector preifat. Nid yw'r feirniadaeth hon o'r sector cyhoeddus yn un ddilys felly gan ei bod yn seiliedig ar brosesau a ddefnyddir yn y sector preifat tra bo canlyniadau yn y sector cyhoeddus yn cael eu rhoi at ei gilydd mewn ffordd wahanol: nid yw'n gymhariaeth o debyg wrth debyg. Mae'r ffordd y mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno felly yn gamarweiniol.

Nododd Mr James Quance, PWC ei fod yn cydymdeimlo gyda rhwystredigaeth yr aelodau ar y pwynt hwn. Yr oedd am dynnu sylw at y cyfrifon incwm a gwariant gan ddweud y byddai ymarferwr o sector arall yn dod i'r casgliad o edrych ar y ffigyrau bod gan yr awdurdod ddiffyg o £17m, er mai nid hyn oedd yr achos. Roedd y darlun cywir i'w weld yn y Datganiad o Symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor. Dywedodd bod y rhwystredigaeth a deimlir yn cael ei rannu gan eraill ac yn anffodus fe fyddai'r sefyllfa'n debygol o ddod yn fwy cymhleth gan y bydd newidiadau sydd ar ddod yn gofyn am i gyfrifon gydfynd â safonau rhyng-genedlaethol o adrodd yn ôl. O safbwynt gallu darllen a deall y cyfrifon, y rhagair oedd y rhan fwyaf defnyddiol gan ei fod yn gosod allan y canlyniadau am y flwyddyn heb unrhyw gyfeiriad at bethau technegol sy'n gwneudu y cyfrifon yn anodd i'w deall. Y mae'r rhain, fodd bynnag, yn cael eu gyrru gan yr angen i'r cyfan o'r Llywodraeth gydfynd gyda safonau cyfrifo sydd yn berthnasol yn fyd-eang i bob sefydliad.

Yr oedd y mater terfynol a leisiwyd ynglyn â'r ffordd y mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno yn ymwneud â Chyflogau ac yn benodol, contract cyflogaeth y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim a nodir yn y cyfrifon fel un am swm nominal o £1. Gofynnwyd sut yr oedd hynny'n cydfynd gyda'r ffaith bod y Cyngor yn talu swm o £124.7k yn 2009/10 am ei wasanaeth. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid bod yn rhaid i'r Awdurdod ddatgelu lefel uwch o wybodaeth ynglyn ag uwch swyddogion y mae eu cyflog yn cyfateb i £60,000 y.f. neu fwy ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghyfrifon 2009/10. Mae yna ddisgwyliadau statudol mewn perthynas â gweithwyr y Cyngor ac fe ellid dadlau - gan bod ei gontract waith am swm nominal o £1, na all y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim gael ei gyfrif fel gweithiwr gyda chyflog uchel. Mae deddfwriaeth statud yn dweud bod Pennaeth y Gwasanaeth Taledig yn weithiwr i'r Cyngor ac felly y telerau a gynigiwyd oedd bod contract waith y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim gyda'r Cyngor yn un am y swm nominal o £1, tra bo ei brif gontract am wasanaethau i'r Cyngor yn un trwy asiantaeth trydydd person am yr oriau y mae'n ei dreulio yn ei gapasiti fel ymgynghorydd. I bwrpas y cyfrifon, roedd teimlad y byddai'n amhriodol peidio gwneud unrhyw gyfeiriad at gyflogi'r Rheolwr-gyfarwyddwr Interim oherwydd i hynny greu cryn dipyn o ddiddordeb. Felly roedd y wybodaeth o dan Nodyn 37 yn fwy na'r hyn sydd ei angen ac fe'i datgelwyd gyda chaniatâd y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim ei hun. Mewn datganiad i'r wasg yn dilyn cais rhyddid gwybodaeth fe ddywedwyd mai'r amcangyfrif o gostau blwyddyn lawn y Rheolwr-gyfarwyddwr fyddai £275k. Er i hyn gael ei ddehongli fel pe bai hwn yn gyflog Rheolwr-gyfarwyddwr, nid dyma yw'r achos gan mai y rhain yw costau'r pecyn cyfan yn cynnwys costau parhaol fel rhai yr asiantaeth trydydd parti ac ati.

Roedd y Cynghorydd Jim Evans eisiau gwybod a oedd y sefyllfa o danwario yn gynaliadwy ac roedd am wybod a oedd hyn oll yn darogan bod pethau ar i fyny. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid bod yr Awdurdod yn wynebu gostyngiad yn y grant y mae'n ei dderbyn gan Lywodraeth y Cynulliad a'r cwestiwn sy'n codi felly yw - os yw gwasanaethau'n tanwario yna all y cyllidebau hynny gael eu lleihau i raddau sy'n cyfateb i'r tanwariant. Os nodir bod cyfle i danwario yna fe ofynnir i wasanaethau ffactora hynny i mewn i'w harbedion. Yn gyffredinol roedd y darlun yn 2009/10 yn nodi bod deilyddion cyllidebau wedi bod yn ofalus yn y ffordd yr oeddent wedi defnyddio'r adnoddau.

**Penderfynwyd nodi cynnwys y Datganiad Cyfrifon ynghyd â'r sylwadau a wnaed yn y drafodaeth arno.**

**4 BARN GWERTH AM ARIAN**

**4.1** Adroddwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin, 2010 wedi penderfynu fel a ganlyn yng nghyswllt y mater uchod : "Penderfynwyd derbyn cynnwys yr adroddiad a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Archwilio am sylw."

**4.2** Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a oedd wedi'i chyflwyno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Gorffennaf gerbron er sylw'r aelodau. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd hyd yn hyn yn erbyn pob un o'r meini prawf 2008/09 ddefnyddiwyd gan yr Archwilwyr Allanol i benderfynu a oedd gan yr Awdurdod drefniadau yn eu lle ai peidio ar gyfer sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Roedd y farn gwerth am arian yn rhan o Lythyr Blynyddol yr Archwiliwr Allanol. Nodwyd yn yr adroddiad i'r Llythyr Archwilio fis Rhagfyr, 2009 roi barn anffafriol, h.y. bod y gwendidau yn nhrefniadau'r Awdurdod i sicrhau gwerth am arian yn gorbwyso'r cryfderau. Mewn trafodaethau yn y Pwyllgor Gwaith ac yn y Pwyllgor Archwilio ar y pryd, roedd rhai yn teimlo bod y farn hon yn annheg oherwydd fe ddangoswyd bod yr Awdurdod wedi gwneud peth cynnydd yn erbyn y gwendidau a nodwyd flwyddyn ynghynt, er bod yr Archwiliwr yn credu na fu hun cyn gyflymed ac a fu mewn Awdurdodau eraill yng Nghymru, a hynny'n golygu bod sefyllfa gymharol Ynys Môn wedi mynd i lawr.

Dweud wnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid bod yr adroddiad yn tynnu at ei gilydd nifer o adroddiadau cynnydd ar waith a gwblhawyd neu sydd mewn llaw ac sy'n cyfrannu tuag at y farn gwerth am arian. Roedd posibilrwydd y gallai'r meini prawf gwerth am arian yn 2009/10 fod yn wahanol, ac efallai y gallai disgwyliadau'r Mesur Llywodraeth Leol fod yn wahanol. Nid yw'r Awdurdod wedi gweld meini prawf 2009/10 eto ac yn dilyn ymgynghori gyda'r Archwilydd Allanol, fe wnaed y gwerthusiad uchod yn erbyn meini prawf a barn y flwyddyn ddiwethaf. Ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid, roedd yr adroddiad yn dangos cynnydd cadarn yn erbyn pob un o'r meini prawf sydd yn codi o gynllun adfer y Cyngor, a chynlluniau gweithredu eraill sydd eisoes ar waith. Roedd yn gobeithio y byddai'r Archwilydd Allanol o'r un farn ac y byddai'n gallu casglu bod trefniadau yn eu lle ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn 2009/10.

Cadarnhau wnaeth Mr James Quance, PWC nad oedd dim, yn seiliedig ar ei ddealltwriaeth ef o ddatblygiadau diweddar ac ar waith wnaed fel rhan o'r asesiad corfforaethol o dan y Mesur Llywodraeth Leol, yn yr adroddiad fyddai'n ei arwain i herio'r hyn sy'n cael ei osod allan fel cynnydd yn yr adran ddiweddaru. Fodd bynnag, wrth dderbyn hyn rhaid cofio bod yr Archwilydd Allanol eisiau gwneud y gwaith manwl sy'n waelodol i'r asesiad hwn er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cefnogi hynny a bod yr holl ffactorau sylfaenol mewn perthynas â'r trefniadau sy'n eu lle wedi'u hystyried a'u gwyntyllu. Gan gyfeirio at y meini prawf, fe drafodwyd a oedd yn beth doeth i werthuso'r cynnydd yn erbyn meini prawf 2008/09. O gofio bod y newidiadau i'r meini prawf o flwyddyn i flwyddyn yn rhai ffiniol ac nad yw'r prif ddisgwyliadau o safbwynt perfformiad a rheoli risg, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yn newid yn eu hanfod, barnwyd y byddai'n ddoeth mynd i'r afael â'r mater yn y ffordd sy'n cael ei amlinellu yn yr adroddiad. Bydd yr Archwilwyr Allanol yn edrych yn fwy agos yn y misoedd sydd i ddod ar y dystiolaeth i gefnogi'r asesiad o gynnydd a bydd canlyniad hyn yn cael ei adrodd yn ôl fis Medi ar yr un pryd ag y bydd y cyfrifon terfynol yn cael eu cyflwyno. Bydd yr adroddiad Asesiad Corfforaethol yn bwydo i mewn i'r gwaith hwn a bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn dosbarthu'r adroddiad hwnnw gyda hyn. Roedd Mr Quance am dynnu sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod asesiad yr Archwilydd Allanol yn cael ei chyflwyno ar gyfer cymedroli yn Swyddfa Archwilio Cymru ynghyd â phob awdurdod arall yng Nghymru lle cânt eu cymharu, ond

roedd yn credu y byddant yn edrych ar y daith pan yn penderfynu o ble roedd yr Awdurdod yn cychwyn a pha mor bell y daeth, ei sefyllfa yn awr a'r rhaglen amser roddwyd iddo i wneud y gwelliannau. Nid yw'n glir iawn ar hyn o bryd pa effaith gaiff ffactorau o'r fath yn y broses gymedroli.

Dweud wnaeth y Cadeirydd mai'r neges sy'n amlygu ei hun yw bod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd ac yn gwella, ond y boendod iddo ef a'i gyd aelodau yw'r costau nid ansylweddol sydd ynglyn â'r broses drosolwg a monitro. Holodd, gan dderbyn bod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd, a chan dderbyn bod llawer o'r pwysau ariannol yn gorfod cael ei ddwyn gan y trethdalwyr ar amser pan yw adnoddau'n fwy prin, a yw'r lefel bresennol o ymyrraeth yn angenrheidiol neu'n briodol? Atebodd Mr James Quance trwy ddweud mai'r teimlad cyffredinol yw bod angen i'r rheoleiddio fod yn gymesur i'r risg ac os bydd gwelliannau fel y rhai y manylir arnynt yn yr adroddiad yn parhau yna fe ellid disgwyl lefel isel o reoleiddio ac mae yna ddarpariaeth ar gyfer hynny o dan y Mesur Llywodraeth Leol. Mae'n anodd rhagweld beth fydd y sefyllfa yn arbennig gan bod y rheoleiddwyr angen archwilio'r dystiolaeth i gyfiawnhau'r gwelliant ac i sicrhau eu hunain bod cynnydd yn cael ei wneud a bod yr Awdurdod yn mynd y ffordd iawn. O safbwynt y pwysau a'r adnoddau, fe fydd yr Archwiliwr Cyffredinol newydd pan fydd yn ei swydd yn dymuno ystyried materion fel hyn ac fe fydd yn gwybod yn iawn am yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i wasanaethau Llywodraeth Leol.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd a wnaed.**

## 5 CYMUNEDAU'N GYNTAF

Cyflwynwyd gohebiaeth dyddiedig 6 Gorffennaf, 2010 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn amlinellu casgliadau ac argymhellion adolygiad ynglyn â'r uchod fel maent yn perthnasu i Gyngor Sir Ynys Môn yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Corff Derbyn Grantiau ar gyfer Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf.

Fel rhan o'r Adolygiad a gomisiynwyd gan y Cyfarwyddwr Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, fe gynhaliodd Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth y Cynulliad adolygiad o'r rheolau ariannol a'r trefniadau Llywodraethu sydd yn eu lle i weinyddu a rheoli cyllid grant Cymunedau'n Gyntaf a dderbyniwyd gan bartneriaethau a nodwyd fel rhai risg uchel yn dilyn ymarfer asesu risg. Roedd Partneriaethau Ynys Môn wedi'u cynnwys yn y categori risg oherwydd pryderon rheoli blaenorol a chymwysterau archwilio hirsefydlog. Roedd yr adolygiad yn ymwneud â threfniadau oedd yn eu lle yn y Corff Derbyn Grant ac yn y Partneriaethau. Roedd y papur yn crynhoi methodoleg yr adolygiad ac yn dweud fel casgliad cyffredinol - tra bo Cyngor Sir Ynys Môn i bob pwrpas yn darparu cefnogaeth fel corff derbyn grant er mwyn darparu polisi, nid yw'n llawn ymgymeryd ai gyfrifoldebau i reoli cyllid, yn arbennig mewn perthynas â rhoi sicrwydd i Lywodraeth y Cynulliad bod y cyllid wedi cael ei ddefnyddio yn briodol gan Bartneriaethau. Roedd yr Awdurdod hefyd yn gadael ei hun yn agoerd i risg ariannol heb fod angen hynny mewn perthynas â rheoli cyllid Cymunedau'n Gyntaf. Roedd y canlyniadau manwl i'w gweld ym mhwyntiau 5 i 13 yn y papur ac yn dilyn y rhain roedd crynodeb o'r argymhellion ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid bod yr Awdurdod ar y cyfan wedi'i blesio gyda'r adroddiad ac y bydd yr argymhellion yn cael sylw. Un pwynt oedd angen ei wneud ynglyn â'r argymhellion oedd bod datblygu a gweithredu system sy'n rhoi digon o sicrwydd bod yr hyn y mae'r Bartneriaeth yn ei ddweud yn gywir, yn golygu cynnal archwiliadau mewnol yn fwy aml. Dywedodd y dylid nodi bod gan Wasanaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod ei raglen waith ei hun yn seiliedig ar risg ac roedd hynny'n ei gwneud yn fater i'r Awdurdod flaenoriaethu'r risgiau a phenderfynu lle oedd y lle gorau i adnoddau Archwilio Mewnol gael eu gwario o fewn y Cyngor cyfan.

Yr unig gwestiwn a godwyd gan y Pwyllgor oedd un mewn perthynas â swydd y Cydlynydd Grant gyda'r adolygiad yn argymell y dylid llenwi'r swydd er mwyn sicrhau bod adnodd parhaol yn ei le i reoli cyllid Cymunedau'n Gyntaf a gofynnwyd a oedd hyn yn golygu cost ychwanegol i'r trethdalwr. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod 50% o swydd y Cydlynydd Grant yn ymwneud â gweinyddu grantiau yn gyffredinol a 50% cyllid Cymunedau'n Gyntaf a bod cost yr olaf yn cael ei gyfarfod gan y grant Cymunedau'n Gyntaf. Fodd bynnag, mae'r gofynion yn fwy na'r hyn y gall un swydd ei wneud ac fe gyflogwyd cyfrifydd i edrych ar gyllid Cymunedau'n Gyntaf er mwyn mynd â materion yn eu blaenau. Mewn theori, fe ddylai cost y gwaith gyda'r cyllid Cymunedau'n Gyntaf gael ei dalu o'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf ond nid yw hyn bob tro yn bosibl i'w wneud yn ymarferol.

**Pendefynwyd nodi'r adroddiad a'r wybodaeth o'i mewn.**

**Cynghorydd R Llewelyn Jones**
**(Is-Gadeirydd)**